## Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD 02-03 (COFNODION DRAFFT)

---

Dyddiad: 3ydd Gorffennaf 2003, am 9:15yb

Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, Bae Caerdydd

Presennol:

*Aelodau*

Kirsty Williams, Brycheiniog a Maesyfed (Cadeirydd)
Jeff Cuthbert, Caerffili
David Davies, Mynwy
Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody-Kneafsey, Preseli Penfro
Sandy Mewies, Delyn
Lynne Neagle, Torfaen
Gwenda Thomas, Castell Nedd
Owen John Thomas, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru

*Swyddogion*
Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Peter Jones, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd

### Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chyflwyniad y Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu Aelodau newydd y Pwyllgor a'r rhai oedd yn dychwelyd.

2. Cytunodd y Pwyllgor i nodi Cofnodion y Pwyllgor blaenorol a gytunwyd oddi allan i'r pwyllgor gan Aelodau o'r Pwyllgor blaenorol. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod pob pwynt gweithredu wedi'i gyflawni.

3. Cofnodwyd ymddiheuriadau gan Richard Penn yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau. Wrth ymateb i'r pryder fod Mr Penn yn methu bod yn bresennol, cytunodd y Cadeirydd i siarad ag ef i fynegi pa mor bwysig yng ngolwg y Pwyllgor oedd ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd.

4. Talodd y Cadeirydd deyrnged i Gyn-gadeirydd y Pwyllgor, David Melding AC, am ei gyfraniad i waith y Pwyllgor ac am ei gymorth wrth sicrhau fod y Pwyllgor yn gweithredu mewn modd mor wleidyddol amhleidiol â phosibl.

Teimlai ei bod hi'n arbennig o bwysig i'r Pwyllgor Safonau yn ei drafodaethau allu rhoi o'r neilltu unrhyw wahaniaethau gwleidyddol.

5. Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Peter Jones i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd cyfreithiol i Swyddfa'r Llywydd ac fel ymgynghorydd cyfreithiol I'r Pwyllgor. Cofnododd ei diolchiadau i David Lambert am eiwaith fel ymgynghorydd cyfreithiol I'r Pwyllgor.

**Eitem 2: Cofrestru Buddiannau'r Aelodau**

6. Rhoddodd Clerc y Pwyllgor adroddiad llafar yn rhinwedd ei swydd fel Cofrestrydd Buddiannau'r Aelodau. Tynnodd sylw'r Aelodau at rôl y Pwyllgor wrth oruchwylio'r trefniadau ar gyfer casglu a chynnal y Gofrestr a sicrhau ei bod ar gael yn rhwydd. Rhestrir y cyfrifoldebau hyn yn Rheol Sefydlog 16.1(iv).

7. Rhoddodd Clerc y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf I'r Pwyllgor ynglŷn â'r trefniadau i sicrhau fod yr Aelodau i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gofrestru'u buddiannau, gan gynnwys rhai negyddol, o fewn wyth wythnos o gymryd y llw neu'r cadarnhad. Roedd pob Aelod wedi derbyn llythyr personol oddi wrth Glerc y Cynulliad wrth iddynt gymryd y llw neu'r cadarnhad ac roedd Clerc y Pwyllgor wedi atgoffa pob Aelod ar Fehefin 20.

8. Byddai Cofrestr gyntaf yr ail Gynulliad yn cael ei chyhoeddi ar y Rhyngrwyd yn fuan. Lle nad oedd yr Aelodau wedi ymateb, neu wedi gwneud hynny'n hwyr, gadawyd y blwch yn ymyl eu henwau'n wag. Byddai Clerc y Pwyllgor yn rhoi nodyn byr ffeithiol i'r Wasg i gyhoeddi fod y Gofrestr ar gael. Ar ôl cyhoeddi'r Gofrestr gyntaf, byddai wedyn yn cael ei diweddaru bob wythnos fel y deuai ymatebion newydd neu ddiwygiedig.

9. Nododd y Pwyllgor adroddiad Clerc y Pwyllgor a chymeradwyo'r bwriad arfaethedig i gyhoeddi'r Gofrestr.

*Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth I gyhoeddi'r Gofrestr gyntaf a rhoi Hysbysiad I'r wasg.*

**Eitem 3: Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgor**

Papur - STD-02-03(01)

10. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried papur STD-02-03(01) a osododd allan gynigion gan yr Ysgrifenyddiaeth ynglŷn â blaenoriaethu baich gwaith y Pwyllgor. Dangosodd y papur y prif faterion sydd o flaen y Pwyllgor sef gweithredu Adolygiad Woodhouse a mater y Seiri Rhyddion. Roedd y papur yn cynnwys cefndir y ddau fater yma.

11. Awgymai'r papur mai mater y Seiri Rhyddion ddylai fod ar ben rhestr blaenoriaethau'r Pwyllgor gydag argymhellion Woodhouse ar rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol hefyd yn cael blaenoriaeth uchel. Byddai argymhellion eraill gan Woodhouse, materion o egwyddor a gyfeiriwyd at y Pwyllgor a chwynion wedyn yn ffurfio gweddill rhaglen waith y Pwyllgor.

12. Ar fater y Seiri Rhyddion eglurodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor blaenorol wedi trafod y pwynt yn fanwl iawn. Roedd y Pwyllgor wedi gwneud cynigion i Gyfarfod Llawn a oedd yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofid y cyhoedd, a phryder rhai Aelodau, ynglŷn â gweithredu'r Seiri Rhyddion ar y naill llaw a'r angen i sicrhau na fyddai'r Cynulliad yn agored i achos llys ac nad oedd y Seiri Rhyddion yn cael eu trin yn annheg. Roedd y cynigion hyn wedi methu o ychydig â chael y mwyafrif deuparthol angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd hi'n anodd gweld unrhyw ateb arall a fyddai'n sicrhau gwell cefnogaeth.

13. Yn y drafodaeth, gwnaed y pwyntiau hyn:

   i. Gyda golwg ar bosibilrwydd achos cyfreithiol nid oedd gwneud dim yn ddewis ymarferol. Cadarnhaodd Peter Jones mai yn erbyn y Cynulliad fel corff y byddai unrhyw achos cyfreithiol yn debygol o gael ei godi. O farnu bod Aelodau unigol wedi bod yn hynod esgeulus, byddai'n bosibl dod ag achos o gamymddwyn, ond nid oedd hyn yn debygol iawn.

   ii. Gallai unigolion a oedd yn ystyried fod y gofyn yn effeithio arnynt ddod ag achos, ac felly'r Seiri Rhyddion fel corff.

   iii. Byddai'r cynigion a argymhellwyd gan y Pwyllgor wedi dileu'r sancsiwn troseddol o beidio â chofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Fodd bynnag, byddai methu cofrestru hyn (ac aelodaeth cyrff penodol eraill) yn ddarostyngedig i'r drefn gwynion a oruchwylir gan y Pwyllgor.

   iv. Byddai o gymorth I Aelodau'r Pwyllgor weld pob papur ar y mater hwn a gafodd ei drafod gan y Pwyllgor blaenorol. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu i'r rhain gael eu cylchredeg.

1. Cytunodd y Pwyllgor mai gofynion cofrestru mewn perthynas â'r Seiri Rhyddion ddylai fod ar ben rhestr blaenoriaethau'r Pwyllgor ac y dylid trafod hyn yn y Pwyllgor nesaf.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth I gyflwyno papur dewisiadau i'w drafod yn y cyfarfod nesaf ac I gylchredeg y papurau blaenorol.*

2. Ynglŷn ag **Adolygiad Woodhouse,** cytunodd y Pwyllgor y dylai'r argymhellion sydd yn ymwneud â rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol gael blaenoriaeth. Gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth ddod â chynigion ar hyn ymlaen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Blaenoriaethid yr argymhellion eraill yn ôl y pwys a roddwyd arnynt gan yr Athro Woodhouse yn yr Arolwg a deuid â chynigion ymlaen i'r pwyllgor eu hystyried yn ystod y deuddeg mis nesaf.

3. Yn dilyn awgrym y Cadeirydd, cytunodd y Pwyllgor y dylid estyn gwahoddiad i'r Athro Woodhouse roi cyflwyniad anffurfiol ar ei Hadolygiad i Aelodau'r Pwyllgor. Gwahoddid hefyd Aelodau eraill y Cynulliad.

4. Cadarnhaodd Clerc y Pwyllgor, wrth ateb cwestiwn, fod argymhellion 23 a 26 (sef cyhoeddi adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol ar gwyn fel atodiad i adroddiad y Pwyllgor a rhoi i'r sawl sy'n gwneud cwyn gael cyfle i roi adborth a mynegi unrhyw bryderon am y broses) wedi'u gweithredu neu'n mynd i gael eu gweithredu.

*Gweithredu:*

*Yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno papur ar rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol ar gyfer y cyfarfod nesaf..*

*Yr Ysgrifenyddiaeth I wahodd yr Athro Woodhouse I gyflwyno'I chasgliadau I'r Aelodau ar adeg gyfleus.*

**Eitem 4: Grwpiau Trawsbleidiol**

Papur - STD-02-03(02)

5. Eglurodd y Cadeirydd fod Pwyllgor y Tŷ yn dymuno sefydlu trefn i gofrestru Grwpiau Trawsbleidiol ac wedi gwahodd y Pwyllgor Safonau i ystyried goblygiadau eu cynnig mewn perthynas â safonau.

6. Dywedodd y Cadeirydd fod, yn ôl pob golwg, ddwy brif ffordd o reoleiddio unrhyw drefn newydd:

   i. cofrestru'r grwpiau trawsbleidiol oddi mewn i drefn cofrestru Buddiannau Aelodau. Byddai hyn yn gwarantu safonau

llym ond gallai fod yn ormodol o ystyried y cosbau posibl i rai na fyddent wedi ufuddhau (h.y. torri'r gyfraith droseddol). Buasai trefn felly hefyd yn gofyn am adnoddau dwys i'w gweinyddu;neu

ii. côd ymddygiad lle byddai torri'r côd yn agored i gwyn ffurfiol dan y drefn gwyno.

1. Mewn trafodaeth, gwnaethpwyd y pwyntiau a ganlyn:

i. Er ei fod yn ei hanfod yn fater i Bwyllgor y Tŷ benderfynu yn ei gylch, dylai'r trothwy wrth sefydlu grwpiau trawsbleidiol fod yn gynrychiolaeth o dair plaid o leiaf.

ii. Ni fyddai'n briodol i grwpiau trawsbleidiol allu defnyddio adnoddau'r Cynulliad, gan gynnwys adnoddau staff yn helaeth.

iii. Cytunodd y Pwyllgor fod angen rhestru grwpiau trawsbleidiol yn agored ond nid oedd o'r farn mai Cofrestr Buddiannau'r Aelodau oedd y lle priodol.

iv. Teimlai'r Pwyllgor mai'r ffordd ddoeth i'w dilyn fyddai i Bwyllgor y Tŷ sefydlu côd ymddygiad ar gyfer grwpiau trawsbleidiol, a bod torri'r côd yn agored i gwyn ffurfiol dan y drefn gwyno. Byddai hyn yn dilyn patrwm materion tebyg fel camddefnyddio adnoddau'r Cynulliad.

*Gweithredu:Yr Ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu gan gyfleu barn y Pwyllgor.*

**Eitem 5: Gollwng Gwybodaeth o Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant**

1. Er nad oedd gofyn iddi wneud hyn dan Reol Sefydlog 4.5, datganodd Jocelyn Davies ei bod yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio; ar hyn o bryd ac ar yr adeg pan ollyngwyd yr wybodaeth.

2. Wrth gyflwyno'r eitem, eglurodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried pa weithredu ymhellach os o gwbl sydd yn ofynnol ynghylch gollwng gwybodaeth o Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant.

3. Wrth drafod, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

i. Ni ddylai arwain ymchwiliadau i achosion o ollwng gwybodaeth fod yn rhan o rôl y Pwyllgor Safonau. Hyd yn oed pe ceid cwyn o dan y drefn gwyno, roedd hi'n amheus a fyddai ymchwiliad yn ymarferol neu'n fuddiol.

ii. Roedd Arolwg Woodhouse wedi ystyried y mater a chyfeiriai dau o'r argymhellion (11 & 12) at y maes hwn. Sef:

a. dylid diwygio'r Côd Ymddygiad i bwysleisio fod gollwng gwybodaeth o adroddiadau Pwyllgor yn arfer annerbyniol; a

b. dylid gofyn am gydweithrediad y grwpiau gwleidyddol i ddatblygu diwylliant lle y perchir cyfrinachedd trafodion pwyllgor.

24. Cytunodd y Pwyllgor na allai weithredu yn yr achos arbennig hwn. Byddai, fodd bynnag, yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol perthnasol a dulliau o leihau posibilrwydd gollwng gwybodaeth pan fydd yn trafod y mater fel rhan o Adolygiad Woodhouse.

*Gweithredu: Y Cadeirydd I ysgrifennu I gyfleu barn y Pwyllgor I'r Pwyllgor Archwilio.*

**Eitem 6: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

25. Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn amodol ar gyfer dydd Iau 16 Hydref 2003, er y gellid cynnal cyfarfod cyn hynny pe bai gofyn i'r Pwyllgor gyfarfod i wrando achos o gwyn.

26. Cytunwyd y dylai cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ddechrau am 9:15 yb.

27. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 10:45yb.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**